Carmarthenshire Winter NEWSLETTER 2011

This Issue

Welcome to Workways

Go for your GOALS

Come and See us- Latest Events

It's a Dog's Life!

Building a Brighter Future

Change of Direction for Marcus

New Found Security For Barry and Diane

Communities First Partnership

Contact Us

Workways

Delta Lakes Enterprise Centre

The Avenue

Llanelli

Carmarthenshire

SA15 2DS

01554 744320

Workways@

carmarthenshire.

gov.uk

Workways Gweithffyrdd

your route to employment

eich llwybr at swydd

Looking for work?.....We can help

Welcome to the first edition of the Workways newsletter.

The aim of the newsletter is to raise awareness of the Workways project and to show what is being achieved.

It contains information about how Workways can help local people move into employment, education and training.

Since March 2010, Workways has:

- Provided mentoring and advice for 950 people - helping them to overcome the barriers they face to finding work and putting them in touch with specialist support organisations
- Helped 293 people move into paid employment
- Helped 141 people into temporary work.

Some of the participants we have helped over the last 18 months

293 people into employment

We look forward to supporting more local people over the coming year, to help them access employment, education and training.

Please read on to find out more about the Workways project and what we've been up to over the last 18 months!

141 people into temporary jobs

The Workways project operates thoughout South West Wales and is managed in Carmarthenshire by Carmarthenshire County Council.

The project is proving a big success and has now been extended until March 2013

The South West Workways project has been made possible by the EU's Convergence European Social Fund through the Welsh Government.

Go For Your GOALS-Success Again

Meet the Team

Shan Williams
Project Manager

Colin Williams
Project Co-ordinator

Lee Richards
Mentor

Maxine Beynon Mentor

Martin Morgan Mentor



Phill Davies Mentor

John Thomas Mentor

5 Workways participants have found success after taking part in a G.O.A.L.S. motivational course held at our premises in Delta Lakes,

Llanelli.

The course gives participants not only the skills needed to undertake jobsearch successfully, but also to enjoy the demands of modern day jobsearch. It aims to raise self-esteem and also encourages participants to be more proactive.

G.O.A.L.S. stands for Gaining Opportunities and Life Skills and will help you set your long term and short term goals on the road back to employment.

Of the five participants on the course, 4 are now in gainful employment, whilst the other participant is continuing their search for work.

Further courses will be run as and when the project demands in Llanelli, Carmarthen and Ammanford over the coming months.

Colin Williams (Project Co-ordinator) and Chris Thomas (Employment Liaison Officer) with some of the people who took part in the GOALS Course.

Are you a voluntary organisation that could benefit Workways, and in turn, your own organisation by providing volunteering opportunities?

If so please contact us so that we can work together on 01554 744320

Out and about…?

A recent event in St Elli Shopping Centre proved a big success with many people referring themselves onto the Project.

More of these events are planned over the coming months.

Come and see us…

Wednesdays—Delta Lakes Enterprise Centre, The Avenue, Llanelli.

Jobclub held between 1pm and 4pm.

Contact Chris 01554 744320

Thursday—Penuel Street , Carmarthen.

Jobclub held between 10am and 4pm

Contact John 01267 242440

Thursday - Llys Glas, Pantyffynon, Ammanford.

Jobclub held between 1pm and 4pm

Contact Phill 01269 590248

Monthly collaborative Jobclubs held every month around the county.

For Info please contact Colin 01554 744320

Temporary Job Successes

Zoe is 43 and having spent most of her life in full-time employment, Zoe found herself unemployed for a period of 18 months prior to accessing the Workways Project.

Zoe found the emotional effects of being out of work far more difficult to cope with than the financial implications, and following one-to-one advice and guidance from her mentor and Employment Liaison Officer Zoe expressed an interest in working with animals, and was subsequently offered a Temporary Job Opportunity via Workways at a local kennel.

Zoe has enjoyed the experience that the Temporary Job Opportunity has provided and is now far happier with her life in general.

It's a Dog's Life!

Workways participant Zoe, on her Temporary Job Opportunity via Workways

"This has been a fantastic opportunity for me, very different from the work I have done in the past, my employer is flexible and fair, getting back into work has made me realize how depressing it was being out of work".

Building a Brighter Future

Celtic Restoration have been in business for the past 10 years, they undertake all types of construction work and are currently working on a development of bungalows in Gorslas, Ammanford

Julian Jenkins who runs Celtic Restoration heard about Workways through a family connection that had accessed the project previously.

Julian took a Workways participant on via a Temporary Job Opportunity and has since taken him on as a full time employee. Celtic Restoration have now taken another beneficiary on and hope to employ him full time at the end of the Temporary Job Opportunity.

Julian Jenkins from Celtic Retoration has found Workways to be of real benefit to his business.

"Workways has helped my business during these difficult economic times we are experiencing. It has allowed me the opportunity to have employees wages subsidised for up to 6 months and subsequently I have employed them full time".

Meet the Team

Jake Williams
Project Co-ordinator

Chris Thomas Employment Liaison Officer

Darrel Wiliams Employment Liaison Officer

Jo Evans Performance Monitoring Assistant

Katrina Howells Support Assistant

Workways has formed excellent partnerships with a range of local employers. We've been very successful at finding vacancies and work experience placements for those taking part in the project. If you have vacancies you would like our help with, please contact us on 01554 744322

New Found Security For Barry and Diane

Married couple Barry and Diane from the Ammanford area had both been out of work for 3 years. Diane in particular had suffered with her health in the recent past and her husband, Barry, had been caring for her. Diane was referred to Workways from another agency whilst Barry took the opportunity to refer himself after hearing of the support that Workways can provide.

Both felt that they needed re-training and following research into the local labour market and advice and guidance from their mentor, both enrolled on an SIA Security Course. Barry had worked in this field before but his skills needed refreshing, whilst Diane, after her labour market research with her mentor, felt security work was feasible.

Both Barry and Diane passed the course and obtained their SIA security licences in July of this year. Both are now employed as Security Officers working on various contracts around the country.

Change of Direction for Marcus

Marcus is happy after securing employment via the Workways Project.

Marcus is a qualified carpenter but after spending time unable to secure work in the carpentry field is now working for a local plant glazing company following advice and guidance from the Workways team on the local labour market.

'The thought of working with glass was a bit scary at first, but I soon settled in with the encouragement of my employer, Workways has helped me immensely, I have never been happier in my work and I can now look forward to a very bright future. Marcus Workways Participant

Workways and Communities First partnership Goes from Strength to Strength

Workways in Carmarthenshire has established strong working relationships with many organizations across the county, one such organization is Communities First. Workways have set up jobsearch sessions with Communities First to get the project out into the community and allow each organisation to access each others services.

Communities First in Pantyffynon, Ammanford allow community members to access their ICT suite for all manner of jobsearch activities and also hold a homework club for parents and children on Mondays between 3.30pm and 5pm. They also offer training opportunities to develop skills in maths and English through Learn Direct and Communities 2.0 which Workways particiapnts can access.

Another service that can be accessed through the Workways Project and and provided by Communities First is the Debt and Benefit Back to Work Project, this covers the Amman and Gwendraeth Valley and offer FREE AND CONFIDENTIAL services to all residents including debt support, budgeting advice, benefits support, employment support and volunteering opportunities.

To find out more please contact the team on **01269 596821.**

Workways also works in close partnership with Communities First in Glanymor and Tyisha, Felinfoel and Llwynhendy.

The South West Workways project has been made possible by the EU's Convergence European Social Fund through the Welsh Government.

Dyfodol Diogel i Barry a Diane

Marcus ar Drywydd Newydd

Roedd Barry a Diane, pâr priod o ardal Rhydaman, ill dau wedi bod yn ddi-waith ers 3 blynedd. Roedd Diane yn enwedig wedi cael problemau iechyd yn ddiweddar ac roedd Barry, ei gŵr, wedi bod yn gofalu amdani. Cafodd Diane ei chyfeirio at brosiect Gweithffyrdd gan asiantaeth arall a chyfeiriodd Barry ei hun at y prosiect ar ôl clywed am y cymorth yr oedd Gweithffyrdd yn ei roi.

Roedd y ddau o'r farn bod arnynt angen ailhyfforddi ac ar ôl ymchwilio i'r farchnad lafur leol a chael cyngor ac arweiniad eu mentor, cofrestrodd y ddau ar un o Gyrsiau Diogelwch yr SIA (Awdurdod y Diwydiant Diogelwch). Roedd Barry wedi gweithio yn y maes o'r blaen ond roedd angen gloywi ei sgiliau arno, tra bo Diane, ar ôl iddi hi a'i mentor ymchwilio i'r farchnad lafur wedi dod i'r farn bod gwaith diogelwch yn bosibilrwydd iddi.

Cwblhaodd Barry a Diane y cwrs yn llwyddiannus a chael eu trwyddedau diogelwch gan yr SIA ym mis Gorffennaf eleni. Mae'r ddau'n Swyddogion Diogelwch bellach ac yn gweithio dan amryw o gontractau o amgylch y wlad.

'Roedd meddwl am weithio â gwydr yn codi ofn arnaf braidd i gychwyn, ond bûm i fawr o dro cyn ymgartrefu, gyda chefnogaeth fy nghyflogwr. Mae Gweithffyrdd wedi bod o gymorth mawr iawn imi. Fûm i erioed yn hapusach yn fy ngwaith a gallaf edrych ymlaen at ddyfodol disglair iawn nawr.
Marcus, un o gyfranogwyr Gweithffyrdd

Mae Marcus yn hapus ar ôl cael gwaith drwy Brosiect Gweithffyrdd.

Mae Marcus yn saer coed cymwysedig ond ar ôl treulio cyfnod yn methu â chael gwaith yn y maes mae'n gweithio bellach i gwmni lleol sy'n gwydro offer, ar ôl iddo gael cyngor ac arweiniad gan dîm Gweithffyrdd ynghylch y farchnad lafur leol.

Partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf â Gweithffyrdd yn Mynd o Nerth i Nerth

Mae Gweithffyrdd yn Sir Gaerfyrddin wedi sefydlu perthynas waith gref â llawer o fudiadau ar draws y sir. Cymunedau yn Gyntaf yw un o'r mudiadau hynny. Mae Gweithffyrdd wedi sefydlu sesiynau chwilio am waith ar y cyd â Chymunedau yn Gyntaf i roi'r prosiect ar waith yn y gymuned ac i alluogi pob mudiad i ddefnyddio gwasanaethau ei gilydd.

Mae Cymunedau yn Gyntaf Pantyffynnon, Rhydaman yn caniatáu i aelodau o'r gymuned ddefnyddio ei ystafell TGCh ar gyfer pob math o weithgareddau chwilio am waith a hefyd, mae'n cynnal clwb gwaith cartref i rieni a phlant ar ddydd Llun rhwng 3.30pm a 5pm. Hefyd mae'n cynnig cyfleoedd hyfforddiant i feithrin sgiliau mathemateg a Saesneg drwy *learndirect* a Chymunedau 2.0 y gall y rhai sy'n cymryd rhan ym mhrosiect Gweithffyrdd eu defnyddio.

Prosiect Dychwelyd i'r Gwaith (Dyledion a Budd-daliadau), yw un o'r gwasanaethau eraill y gellir ei gyrchu drwy brosiect Gweithffyrdd ac a ddarperir gan Gymunedau yn Gyntaf. Mae'r Prosiect Dychwelyd i'r Gwaith (Dyledion a Budd-daliadau) ar waith yn Nyffryn Aman a Chwm Gwendraeth ac yn cynnig gwasanaethau CYFRINACHOL A RHAD AC AM DDIM i'r holl breswylwyr ynghylch cymorth ynghylch dyledion, cyngor ynghylch cyllidebu, cymorth budd-daliadau, cymorth cyflogaeth a chyfleoedd gwirfoddoli.

I gael rhagor o wybodaeth, ffoniwch y tîm **(01269 596821).**

Hefyd mae Gweithffyrdd yn gweithio mewn partneriaeth agos â Chymunedau yn Gyntaf Glanymôr a Thŷ-isha, Felin-foel a Llwynhendy.

Mae prosiect Gweithffyrdd De-orllewin Cymru wedi cael ei ariannu gan elfen Gydgyfeirio Cronfa Gymdeithasol Ewrop yr Undeb Ewropeaidd drwy Lywodraeth Cymru.

Llwyddo i Gael Swyddi Dros Dro

Cyfle Gwaith mewn Llety Cŵn!

Mae Zoe yn 43 ac ar ôl treulio'r rhan fwyaf o'i hoes yn gweithio'n amser llawn, bu'n ddi-waith am 18 mis cyn iddi gofrestru ar Brosiect Gweithffyrdd.

I Zoe roedd ymdopi ag effeithiau emosiynol bod yn ddi-waith yn llawer anos nag ymdopi â'r goblygiadau ariannol, ac ar ôl cael cyngor ac arweiniad unigol gan ei mentor a'i Swyddog Cyswllt Cyflogaeth mynegodd Zoe ddiddordeb mewn gweithio gydag anifeiliaid ac o ganlyniad i hynny, drwy Gweithffyrdd, cafodd Gyfle Gwaith Dros Dro mewn llety cŵn lleol

Mae Zoe wedi mwynhau'r profiad o gael Cyfle Gwaith Dros Dro ac mae ei bywyd yn gyffredinol yn llawer hapusach bellach.

Workways participant Zoe, on her Temporary Job Opportunity via Workways

"Mae hwn wedi bod yn gyfle gwych imi. Gwaith gwahanol iawn i'r gwaith rwyf wedi'i wneud yn y gorffennol. Mae fy nghyflogwr yn hyblyg ac yn deg. Mae dychwelyd i fyd gwaith wedi gwneud imi sylweddoli pa mor ddigalon oedd bod yn ddi-waith."

Cwrdd Â'r Tîm

Jake Williams

Cydlynydd y Prosiect

Chris Thomas, Swyddog Cyswllt Cyflogaeth

Darrel Williams, Swyddog Cyswllt Cyflogaeth

Jo Evans, Cynorthwy-ydd Monitro Perfformiad

Katrina Howells, Cynorthwy-ydd Cymorth

Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair

Mae busnes Celtic Restoration yn masnachu ers 10 mlynedd. Mae'n ymgymryd â phob math o waith adeiladu ac ar hyn o bryd mae'n gweithio ar ddatblygu byngalos yng Ngors-las, Rhydaman.

Clywodd Julian Jenkins, sy'n rhedeg busnes y Celtic Restoration, am brosiect Gweithffyrdd gan un o'i deulu a oedd wedi bod yn rhan o'r prosiect gynt.

Mae Julian Jenkins o gwmni Celtic Restoration wedi gweld bod Gweithffyrdd o fudd gwirioneddol i'w fusnes.

Rhoddodd Julian waith dros dro i un o gyfranogwyr Gweithffyrdd ac ers hynny mae wedi ei benodi'n weithiwr amser llawn. Erbyn hyn mae Celtic Restoration wedi rhoi cyfle i un arall ac mae'n gobeithio ei gyflogi yntau'n amser llawn ar ddiwedd y Cyfle Gwaith Dros Dro.

"Mae Gweithffyrdd wedi bod o gymorth i fy musnes yn ystod y cyfnod economaidd anodd yr ydym yn ei wynebu. Mae wedi rhoi'r cyfle imi gael cymorthdal ar gyfer cyflogau gweithwyr am hyd at 6 mis ac o ganlyniad i hynny, rwyf wedi cyflogi'r gweithwyr hynny ar sail amser llawn".

Mae Gweithffyrdd wedi llunio partneriaethau rhagorol ag amrywiaeth o gyflogwyr lleol. Rydym wedi cael cryn lwyddiant yn dod o hyd i swyddi gwag a chyfleoedd profiad gwaith i'r rhai sy'n cymryd rhan yn y prosiect. Os oes gennych swyddi gwag yr hoffech inni roi help llaw ichi â nhw, a fyddech cystal â'n ffonio (01554 744322).

GOALS: Y Cwrs i'ch Cymell – Llwyddiant Unwaith

Cwrdd Â'r Tîm

Shan Williams
Rheolwr Prosiect

Colin Williams
Cydlynydd y Prosiect

Lee Richards
Mentor

Maxine Beynon Mentor

Martin Morgan Mentor

Phill Davies Mentor

John Thomas Mentor

Mae pump o gyfranogwyr prosiect Gweithffyrdd wedi cael llwyddiant ar ôl cymryd rhan mewn cwrs cymell G.O.A.L.S. a gynhaliwyd yn ein swyddfeydd ar safle Llynnoedd Delta, Llanelli.

Mae'r cwrs yn rhoi'r sgiliau angenrheidiol i'r cyfranogwyr chwilio am waith yn llwyddiannus, a hefyd fwynhau gofynion chwilio am swydd yn yr oes fodern hon. Meithrin hunan-barch yw ei nod a hefyd annog y rhai sy'n cymryd rhan i fod yn fwy rhagweithgar.

Ystyr G.O.A.L.S. yw Cael Cyfleoedd a Meithrin Sgiliau Bywyd (*Gaining Opportunities and Life Skills*) a bydd o gymorth ichi bennu eich amcanion tymor byr a thymor hir ar y daith yn ôl i waith.
O'r pump a fu'n cymryd rhan yn y cwrs, mae 4 wedi cael gwaith bellach ac mae'r llall yn parhau i chwilio am waith.

Colin Williams (Cydlynydd y Prosiect) a Chris Thomas (Swyddog Cyswllt Cyflogaeth) yng nghwmni rhai o'r bobl a fu'n cymryd rhan yn y Cwrs GOALS.

Bydd cyrsiau eraill yn cael eu cynnal yn ôl gofynion y prosiect yn Llanelli, Caerfyrddin a Rhydaman dros y misoedd nesaf.

A ydych yn fudiad gwirfoddol a allai ddod â budd i brosiect Gweithffyrdd, ac yn ei dro, i'ch mudiad chi, drwy ddarparu cyfleoedd gwirfoddoli?

Os ydych, ffoniwch ni er mwyn inni allu cydweithio (01554 744320).

Yma ac acw…

Bu digwyddiad a gynhaliwyd yn ddiweddar yng Nghanolfan Siopa Sant Elli yn llwyddiant mawr gan i lawer o bobl gyflwyno'u henwau i'r Prosiect.

Bwriedir cynnal rhagor o'r digwyddiadau hyn dros y misoedd nesaf.

Galwch draw i'n gweld

Dydd Mercher – Canolfan Fenter Llynnoedd Delta, Y Rhodfa, Llanelli.

Cynhelir Clwb Gwaith rhwng 1pm a 4pm.

Ffoniwch Chris (01554 744320).

Dydd Iau – Heol Penuel, Caerfyrddin.

Cynhelir Clwb Gwaith rhwng 10am a 4pm.

Ffoniwch John (01267 242440).

Dydd Iau – Llys Glas, Pantyffynon, Rhydaman.

Cynhelir Clwb Gwaith rhwng 1pm a 4pm.

Ffoniwch Phill (01269 590248).

Cynhelir Clybiau Gwaith misol ar y cyd bob mis o amgylch y sir.

I gael gwybodaeth, ffoniwch Colin (01554 744320).

LLYTHYR NEWYDDION 2011 Hydref

Yn y rhifyn hwn

Croeso i brosiect Gweithffyrdd

GOALS – Y Cwrs i'ch Cymell

Galwch Draw i'n Gweld – y Digwyddiadau Diweddaraf

Cyfle gwaith mewn Llety Cŵn!

Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair

Marcus ar Drywydd Newydd

Dyfodol Diogel i Barry a Diane

Partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf

Cysylltu â ni

Gweithffyrdd

Canolfan Fenter Llynnoedd Delta

Y Rhodfa

Llanelli

Sir Gaerfyrddin

SA15 2DS

01554 744320

Gweithffyrdd@sirgar.gov.uk

Workways Gweithffyrdd

your route to employment
eich llwybr at swydd

A ydych chi'n chwilio am waith?..... ***Gallwn ni helpu***

Croeso i rifyn cyntaf llythyr newyddion Gweithffyrdd.

Nod y llythyr newyddion yw cynyddu ymwybyddiaeth o brosiect Gweithffyrdd a dangos yr hyn sy'n cael ei gyflawni.

Mae'n cynnwys gwybodaeth am sut mae Gweithffyrdd yn gallu helpu pobl leol i gamu at gyflogaeth addysg a hyfforddiant.

Er mis Mawrth 2010, mae Gweithffyrdd wedi:

Mentora a chynghori 950 o bobl – gan eu helpu i oresgyn y rhwystrau a wynebant wrth geisio dod o hyd i waith a'u helpu i gysylltu â chyrff cymorth arbenigol.

Gwaith i 293 o bobl

Helpu 293 o bobl i gamu i waith cyflogedig

Helpu 141 o bobl i gael gwaith dros dro.

Edrychwn ymlaen at gynorthwyo rhagor o bobl leol yn ystod y flwyddyn sydd i ddod, i'w helpu i gael gwaith, addysg a hyfforddiant.

Rhai o'r cyfranogwyr yr ydym wedi'u helpu dros y 18 mis diwethaf.

Darllenwch ymlaen i wybod rhagor am brosiect Gweithffyrdd a'r hyn yr ydym wedi bod yn ei wneud dros y 18 mis diwethaf!

Swyddi dros dro i 141 o bobl

Mae prosiect Gweithffyrdd yn gweithredu ledled De-orllewin Cymru, a Chyngor Sir Caerfyrddin sy'n ei reoli yn Sir Gaerfyrddin.

Mae'r prosiect yn llwyddiant mawr ac erbyn hyn mae wedi'i estyn tan fis Mawrth 2013 gan alluogi rhagor o bobl i gael budd o'r prosiect.

Mae prosiect Gweithffyrdd De-orllewin Cymru wedi cael ei ariannu gan elfen Gydgyfeirio Cronfa Gymdeithasol Ewrop yr Undeb Ewropeaidd drwy Lywodraeth Cymru.